30 MUN

12

## Gweithgaredd 2

# Cysylltiadau Morfeydd Heli

**Yr offer sydd ei angen:**

- Copi o 'Cyflwyniad 2: Cysylltiadau Morfeydd Heli' a dyfais i'w rannu gyda'r dysgwyr
- Y cardiau ar ddalen S_SM_1(1-2) wedi'u hargraffu, un i bob grŵp
- Sisyrnau
- Dyfais y gellir ei ddefnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd
- Rhywbeth i gofnodi pwyntiau a nodiadau (e.e. papur a phensil)

## I gwblhau'r gweithgaredd:


1. (Sleid 4-6) Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr drafod cysylltiadau posibl rhwng y lluniau ar bob sleid. Anogwch hwy i edrych yn agos a meddwl yn eang. Er enghraifft:
   - "Mae'r gylfinir a morfa heli yn cysylltu gan bod y gylfinir yn bwydo ar fwydod ac infertebratau mewn mwd ar y forfa heli ar lanw isel."
   - "Mae morfeydd heli yn darparu meithrinfa ddiogel i bysgod ifanc fwydo a thyfu."
   - "Mae morfeydd heli yn storio symiau mawr o garbon glas yn eu priddoedd mwdlyd, sy'n helpu i leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy gadw carbon deuocsid allan o'r atmosffer."

2. (Sleid 7) Heriwch y dysgwyr i greu mwy nag un cysylltiad drwy ddefnyddio'r lluniau ar y sleid. A all unrhyw barau gysylltu pob llun? Er enghraifft:
   - "Gall newid yn yr hinsawdd achosi cynnydd yn lefel y môr, gan arwain at golli cynefinoedd, erydiad arfordirol a cholli cynefinoedd morfeydd heli."

Esboniwch fod 1 cerdyn = 1 pwynt, 2 gerdyn cysylltiedig = 2 bwynt, ac yn y blaen. Rhaid i bob cerdyn fod wedi'i gysylltu'n ystyrlon. Os na all dysgwyr wneud cysylltiad, gallant roi cerdyn sengl i lawr ac esbonio'r hyn a ddangosir yn y llun neu ystyr y gair (1 pwynt). Gall dysgwyr ddefnyddio dyfeisiau wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd i ymchwilio i dermau, rhywogaethau neu syniadau anghyfarwydd i'w helpu i wneud cysylltiadau cryfach, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

3. (Sleid 8) Trefnwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch gopi o S_SM_1 a siswrn i bob grŵp. Gofynnwch I'r dysgwyr dorri'r cardiau llun yn ofalus, a'u rhannu'n gyfartal ar draws y grŵp. Dyma'r cardiau y bydd y dysgwyr yn eu defnyddio i adeiladu eu grid hecsagonol. Defnyddiwch dudalen 1 yn unig ar gyfer fersiwn haws o'r dasg. Ychwanegwch dudalen 2 (cardiau geiriau yn unig) ar gyfer fersiwn mwy heriol, gan annog cysylltiadau ac esboniad dyfnach.

4. (Sleid 9) Cefnogwch y dysgwyr i adeiladu grid hecsagonol trwy gysylltu syniadau am forfeydd heli. Rhaid i bob cysylltiad wneud synnwyr a bod yn rhywbeth y gall y dysgwyr ei esbonio i eraill. Mae cardiau yn cael eu gosod mewn grid, gyda phob ymyl yn cynrychioli cysylltiad. Bydd dysgwyr yn derbyn pwyntiau am bob cysylltiad ystyrlon y gallant ei esbonio. Gofynnwch i'r dysgwyr gymryd eu tro ac i gadw golwg ar eu pwyntiau fel tîm.



5. (Sleid 10) Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu cysylltiadau mwyaf diddorol neu annisgwyl â'r dosbarth.
A wnaeth unrhyw gysylltiadau eu synnu?
Beth wnaeth y gweithgaredd hwn eu helpu i sylweddoli am forfeydd heli?

PECYN ATHRO

Pwnc: **Morfeydd Heli**

CC: 2/3


Morfa heli



Llanw uchel


Llanw isel


Gwastadedd llaid


Aber


Erydiad arfordirol


Ardal Cadwraeth Arbennig


Ffenigl y môr


Dyfrgi


Gylfinir


Pysgod ifanc


Cranc

Berdysen

Aderyn mudol

Tir bwydo

Amddiffynfa rhag llifogydd

Lafant y môr

Llygredd

Tir meithrinfa pysgod

Cynnydd yn lefel y môr

Cordwellt

Newid yn yr hinsawdd

Carbon glas

Colli cynefinoedd